

## **RHYBUDD CYHOEDDUS YNGLŶN Â CHYFLWYNO CYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL AR GYFER TAI AMLFEDDIANNAETH YM MWRDEISTREF SIROL WRECSAM**

**Mae cadarnhad y dynodiad yn unol ag Adrannau 56 i 60 Deddf Tai 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006.**

Rhoddir rhybudd trwy hyn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam wedi dynodi cynllun trwyddedu ychwanegol ar gyfer tai amlfeddiannaeth (TA). Mae'r dynodiad yn berthnasol i ardal gyfan Bwrdeistref Sirol Wreccsam.

Adnabyddir y dynodiad hwn fel "Cynllun Trwyddedu Ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam 2016".

Gwnaethpwyd y dynodiad yng Nghyfarfod Bwrdd Gweithredol y Cyngor y 12 Gorffennaf 2016 â'i weithredu o 21 Gorffennaf 2016. Nid oedd rhaid cadarnhau'r dynodiad. Mae'r Gymeradwyaeth Gyffredinol o dan Ddeddf Tai 2004 (Trwyddedu TA Ychwanegol) (Cymru) 2007, a ddaeth i rym y 13 Mawrth 2007, yn berthnasol i'r dynodiad hwn.

Bydd y dynodiad yn effeithiol o'r 1 Tachwedd 2016 ac oni bai ei fod wedi ei ddirymu cyn hynny, bydd yn peidio â bod yn weithredol y 31 Hydref 2021. Mae'r dynodiad yn berthnasol i bob Tŷ Amlfeddiannaeth yn y Fwrdeistref Sirol heblaw'r rhai sydd wedi eu heithrio gan yr adrannau perthnasol o Ddeddf Tai 2004.

Dylai unrhyw landlord, sawl sy'n rheoli/gosod neu denant yn y Fwrdeistref Sirol geisio cyngor gan wasanaeth Safonau a Strategaeth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ynglŷn ag a yw'r dynodiad yn effeithio ar eu heiddo hwy.

**O dan adran 72(1) o Ddeddf Tai 2004, mae rhywun yn cyflawni trosedd os yw'r sawl sy'n rheoli TA y mae'n rhaid iddo fod wedi ei drwyddedu ond nad yw wedi ei drwyddedu felly. Bydd rhywun sy'n cyflawni trosedd o dan yr adran hon, wedi ei gollfarnu'n ddiannod, yn agored i ddirwy heb uchafswm (yn gynt hyd at £20,000). Ar ben hynny, gallai orfod talu'n ôl hyd at 12 mis o rent a gasglwyd yn ystod yr amser yr oedd yr eiddo heb drwydded.**

Er mwyn i gais gael ystyriaeth mae'n rhaid iddo roi manylion a ragnodir ac mae'n rhaid iddo fod gyda'r ffi drwyddedu briodol. I ofyn am gais am drwydded neu am gyngor cyffredinol mae croeso i chi gysylltu â Safonau Tai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam, Ffordd Rhuthun, Wreccsam, LL13 7TU Fôn (01978) 298989 E-bost [hmo@wrexham.gov.uk](mailto:hmo@wrexham.gov.uk).

Mae copi o'r dynodiad ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd yn y Dderbynfa, Safonau Tai, Ffordd Rhuthun, Wreccsam, LL13 7TU. Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd oddi ar wefan y Cyngor, sef [www.wrexham.gov.uk](http://www.wrexham.gov.uk).